



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
Statws:			
Teitl:			
Cyhoeddwyd gan:			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Crynodeb:			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
	Llinell Uniongyrchol:		
	E-bost:		
	Gwefan:		

Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrolau 1 (Tai annedd) a 2 (Adeiladau ac eithrio tai annedd)

CYFLWYNIAD

1. Rwyf wedi cael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i dynnu eich sylw at y diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy B - Diogelwch Tân - Cyfrol 1 (Tai annedd) a Dogfen Gymeradwy B – Cyfrol 2 – (Adeiladau ac eithrio tai annedd) a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2016.

DIWYGIADAU I'R DOGFENNAU CYMERADWY

2. Mae fersiwn ddiwygiedig Dogfen Gymeradwy B - Cyfrol 1 (Tai annedd) yn cynnwys Adran 2 newydd mewn perthynas â systemau llethu tân awtomatig ar gyfer adeiladau dan reoliadau 37A (1) (a) a 37A (1) (b) o Reoliadau Adeiladu 2010 (darparu systemau llethu tân awtomatig). Mae'r fersiwn ddiwygiedig hefyd mewn fformat newydd i Gymru.
3. Mae fersiwn ddiwygiedig Dogfen Gymeradwy B - Cyfrol 2 (Adeiladau ac eithrio tai annedd) yn cynnwys newidiadau i Adran 3 (Ffyrdd o ddianc o fflatiau) i gynnwys y gofynion am systemau llethu tân sy'n ofynnol gan reoliadau 37A (1) (a) a 37A (1) (b) o Reoliadau Adeiladu 2010 (darparu systemau llethu tân awtomatig) a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2016.
4. Mae Atodiad A i'r cylchlythyr hwn yn rhoi arweiniad ar gymeradwyo'r diwygiad i Ddogfen Gymeradwy B - Cyfrol 1 a Chyfrol 2.

YMHOLIADAU

5. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

Colin Blick, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Rhif Ffôn: 03000 628144.

E-bost Colin.Blick@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir



Francois Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

Atodiad A

Deddf Adeiladu 1984

HYSBYSIAD CYMERADWYO MEWN PERTHYNAS Â DIWYGIO DOGFEN ER MWYN RHOI ARWEINIAD YMARFEROL MEWN PERTHYNAS Â GOFYNIION RHEOLIADAU ADEILADU 2010

Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn hysbysu o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y cyfryw bwerau o dan adran 6, wedi cymeradwyo'r diwygiadau a restrir isod i'r Ddogfen Gymeradwy er mwyn rhoi arweiniad ymarferol mewn perthynas â gofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) yng **Nghymru** yn unig.

Dogfen Gymeradwy	Y gofynion yn y Rheoliadau Adeiladu y cymeradwyir y ddogfen mewn cysylltiad â nhw	Y dyddiad y bydd y diwygiad yn dod yn weithredol
Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy B Diogelwch Tân Cyfrol 1 Tai annedd (2006)	Rhan 7A ac Atodlen 1, Rhan B	1 Ionawr 2016
Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy B Diogelwch Tân Cyfrol 2 Adeiladau ac eithrio tai annedd (2006)	Rhan 7A ac Atodlen 1, Rhan B	1 Ionawr 2016 (Mewn perthynas â fflatiau)